

PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL
COFNOD PENDERFYNIADAU

DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 30 Tachwedd 2022

DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Dydd Gwener, 9 Rhagfyr 2022

Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

Eitem Rhif	Teitl	Diben, Ymgynghoriad ac Awdur	Datganiad Diddordeb	Penderfyniad
1	GOFILON - CYLLID ADRAN 106 AR GYFER HAMDDEN A CHWARAE	Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	<p>DATRYS: Bydd cyllideb cyfalaf o £64,549 yn cael ei chreu yn 2022/23 er mwyn ariannu gwelliannau hamdden ar Faes Chwarae Gofilon Brenion Siôr V, a bydd hyn yn cael ei ariannu gan gyfraniad cyfatebol o'r balans Adran 106 sydd ym meddiant y Cyngor o'r Cytundeb A106 sydd yn ymwneud gyda hen safle Ysgol Gofilon.</p> <p>Mae'r cyllid wedi ei drosglwyddo i Gyngor Cymuned Llan-ffwyst Fawr fel ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r maes chwarae a bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Cymuned ar gytuno a gweithredu'r gwelliannau.</p> <p>Pan gaiff ei dderbyn, bydd cyllideb cyfalaf o hyd at £51,000 yn cael ei greu er mwyn ariannu'r gwelliannau i'r maes chwarae presennol ar Faes Chwarae Gofilon Brenion Siôr V, a bod hyn yn cael ei ariannu gan gyfraniad cyfatebol o'r balans sydd i'w dderbyn gan Gytundeb A106 o ran datblygiad tir preswyl sydd wedi ei leoli rhwng A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd a phrif heol y pentref B4246.</p> <p>Pan gaiff ei dderbyn, bydd yr arian yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Cymuned Llan-ffwyst Fawr fel ymddiriedolwyr sy'n rheoli'r maes chwarae a bydd swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Cymuned ar gytuno a gweithredu'r gwelliannau.</p>
Additional Information:				
2	ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL - GWASANAETH CYNLLUNIO SIR FYNWY (APR)	Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	<p>DATRYS: Mae Aelod Cabinet ar gyfer Economi Gynaliadwy a'r Dirprwy Arweinydd yn cymeradwyo'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021-2022 ar berfformiad Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p>
Additional Information:				
3	DARPARIAETHAU A DIGWYDDIADAU ARFAETHEDIG I'R GORCHMYNION TRAFFIG MEWN LLEOLIADAU AMRYWIOL O FEWN SIR FYNWY.	Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	<p>DATRYS: Ymatal rhag cynnal ymchwiliad cyhoeddus a chymeradwyo a gweithredu'r Gorchmynion canlynol:</p> <p>Darparu parcio ar gyfer beiciau modur a chartrefi modur i barcio yng Ngorsaf Fysiau'r Fenni; Gwahardd gyrru ar Stryd Frogmore a Stryd y Llew yn y Fenni; Cyflwyno maes parcio newydd i'w adeiladu (Cyffordd Twannel Hafren); Cynnwys un maes parcio cyfredol i'r atodlen maes parcio (Maes Parcio Parc Gwledig Rogiet);</p>

				<p>Diwygio'r disgrifiad a'r atodlen ffioedd ar gyfer Maes Parcio Stryd Wyebridge sy'n newydd (yn cael ei adeiladu); Dileu'r cyfleuster gor-aros ym mhob un o feysydd parcio arhosiad hir sydd yn berchen i'r Cyngor; Cyflwyno manau parcio ar gyfer cerbydau trydan a chyfyngiad o aros am 4 awr yn y manau hyn.</p>
Additional Information:				
4	<p>NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DERFYNAU CYFLYMDER AR Y B4245 A HEOL CIL-Y- COED, CIL-Y-COED A'R B4293 YN NYFAWDEN</p>	Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	<p>DATRYYS: Ymatal rhag cynnal ymchwiliad cyhoeddus a chymeradwyo a gweithredu'r Gorchmynion arfaethedig:</p> <p>Ail-gyflwyno 30mya ar y rhan o'r ffordd ar y B4245 rhwng Ffordd Woodstock a chylchdro Castlegate, gyda therfyn chyflymder 20mya ar hyd Ysgol Gynradd Durand pan fydd yr ysgol yn agor a chau;</p> <p>Ail-gyflwyno 30mya ar y rhan o'r ffordd ar Heol Cil-y-coed rhwng cylchdro Castlegate a'r bont dros yr hen linell rheilffordd ym Mhorthsgiwed;</p> <p>Ymestyn y terfyn 30mya ar yB4293 yn Nyfawden i gynnwys safle bws a ddefnyddir gan fws yr ysgol.</p>
Additional Information:				
5	EIDDO STRYD TUDUR	Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	<p>DATRYYS: Datgomisiynu Stryd Tudur fel y ganolfan llety ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth dydd i oedolion ag anableddau dysgu yng Ngogledd Sir Fynwy.</p> <p>Defnyddio Stryd Tudur er mwyn cefnogi amcanion polisi'r Cyngor i ddarparu tai fforddiadwy o fewn y Sir.</p> <p>Stryd Tudur yn cael ei ystyried fel tir dros ben a'i drosglwyddo i Wasanaethau Landlordiaid er mwyn cael gwared arno, a hynny ar delerau i'w cytuno gan y Prif Swyddog Adnoddau mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau.</p>
Additional Information:				
		Fel y nodir yn yr adroddiad	Dim	